

Ymddygiad rhywiol a'ch dyletswydd i adrodd am gydweithwyr

1 Yn *Arfer meddygol da*,* rydym yn nodi:

- 25c Os oes gennych chi bryderon nad yw cydweithiwr yn addas i wneud gwaith meddyg efallai, ac y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl, rhaid i chi ofyn am gyngor gan gydweithiwr, eich corff amddiffyn neu ni. Os byddwch yn pryderu o hyd, rhaid i chi adrodd hyn, un unol â'n harweiniad a pholisi eich gweithle, gan wneud cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd.
- 53 Ni ddylech ddefnyddio eich sefyllfa broffesiynol i ganlyn perthynas rywiol neu emosynol amhriodol gyda chlaf neu rywun sy'n agos iddynt.

2 Yn yr arweiniad hwn, byddwn yn esbonio sut y bydd modd i feddygon weithredu'r egwyddorion hyn. Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad.

3 Er mwyn cynnal ymddiriedaeth cleifion a'r cyhoedd, ni ddylech fyth gyfleu awgrym rhywiol i glaf neu ddangos ymddygiad rhywiol. Nid yw ymddygiad rhywiol – er enghraifft, gwneud sylwadau rhywiol amhriodol – yn cynnwys cyffwrdd â'r claf o reidrwydd.

4 Os bydd claf yn dweud wrthy ch am sefyllfa lle y mae terfynau rhywiol wedi cael eu torri, neu os bydd gennych chi reswm arall dros gredu bod cydweithiwr[†] wedi, neu y gallai fod wedi, dangos ymddygiad rhywiol tuag at glaf, rhaid i chi adrodd eich pryderon[‡] i berson neu sefydliad sy'n gallu ymchwilio i'r honiad yn ddi-oed. Os byddwch yn amau bod meddyg wedi cyflawni ymosodiad rhywiol neu weithgarwch troseddol arall, dylech sicrhau bod hyn yn cael ei adrodd i'r heddlu.

5 Rhaid i chi gynnig cymorth i unrhyw rai o'ch cleifion y byddant yn cael eu heffeithio gan y ffaith bod cydweithiwr wedi torri terfynau rhywiol.

* Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da* Llundain, CMC.

† Unrhyw un y mae meddyg yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn feddygon hefyd neu beidio.

‡ Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch. Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch* Llundain, CMC.

- 6** Dylech barchu cyfrinachedd* cleifion wrth adrodd eich pryderon. Ond, rhaid rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch cleifion bob amser. Os byddwch yn fodlon bod angen nodi manylion y claf, dylech geisio caniatâd y claf i ddatgelu'r wybodaeth, gan esbonio pam bod y datgeliad yn angenrheidiol. Os byddant yn gwrthod rhoi eu caniatâd i'r datgeliad ond rydych chi o'r farn bod y datgeliad er budd y cyhoedd, rhaid i chi hysbysu'r claf o'ch bwriad i ddatgelu'r wybodaeth. Ym mhob achos, dim ond gwybodaeth berthnasol y dylech ei datgelu.

* Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn ein harweiniad ynghylch cyfrinachedd (paragraffau 51–56 ynghylch datgeliadau er budd y cyhoedd). Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd* Llundain, CMC.